Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Madras

**Llannerch Banna**
**Wrecsam**
**LL13 0LU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Madras

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Madras |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 120 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 96 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 6 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.7%) | 10.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 13.2%) | 6.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/11/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 18/03/2024 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: fyysgolleol.llyw.cymru.

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Caiff Ysgol Madras ei nodweddu gan ei natur rhyfeddol o groesawgar a chyfeillgar, sy’n treiddio trwy bob agwedd ar waith yr ysgol. Mae disgyblion yn falch o’u hysgol ac yn ymdrin â’u profiadau dysgu â brwdfrydedd ac asbri. Maent yn gwrtais ac yn barchus, ac yn cynorthwyo’i gilydd yn ofalus i gadw’r ymdeimlad fod yr ysgol yn deulu mawr cynhwysol lle rhoddir cyfle i bawb ddisgleirio. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn eithriadol o dda. Ceir diwylliant cryf o ddiogelu yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau eu profiadau dysgu ac yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn datblygu eu medrau dros gyfnod. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a medrau digidol disgyblion yn hynod gryf, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym o oedran ifanc. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau Cymraeg, ac yn falch o’u diwylliant a’u treftadaeth Gymreig.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys ac yn cael ei ategu gan werthoedd ac ethos cryf yr ysgol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau difyr a diddorol sy’n gwneud defnydd effeithiol o’r fro ac ardaloedd dysgu ysgogol yr ysgol. Mae athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau’n symud ymlaen ar gyflymdra priodol ac yn defnyddio ystod dda o gwestiynau treiddgar i atgyfnerthu dealltwriaeth disgyblion ac annog meddwl dyfnach. Caiff disgyblion eu hannog i weithio gyda’i gilydd wrth iddynt herio a chynorthwyo’i gilydd i ddatrys ystod o broblemau. Ar adegau, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu’r disgyblion, sy’n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau dysgu’n annibynnol ar draws y cwricwlwm.

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol a chydwybodol. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun a phobl eraill, ac yn dyheu am sicrhau’r profiadau dysgu gorau i bawb. Caiff ei chynorthwyo’n fedrus gan dîm ymrwymedig o staff ymroddgar a gofalgar sy’n ymdrechu i sicrhau bod lles a chynnydd disgyblion yn hollbwysig. Mae’r llywodraethwyr yn cefnogi’r ysgol â doethineb ac uniondeb ac yn meddu ar ddealltwriaeth gref o’u dyletswyddau a’u rhwymedigaethau. Mae arweinwyr yn meddu ar wybodaeth briodol am gryfderau’r ysgol a’i meysydd i’w datblygu. Nid yw prosesau monitro a gwella’r ysgol bob amser yn canolbwyntio’n ddigon agos ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn rhoi cymorth pwrpasol i staff ac yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd da o’i hadnoddau.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella yn canolbwyntio’n agosach ar effaith darpariaeth yr ysgol ar ddysgu’r disgyblion

A2 Rhannu’r arferion addysgu gorau i sicrhau cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu’n annibynnol yn llawn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol, mae medrau cymdeithasol a chyfathrebu llawer o ddisgyblion yn debyg i'r lefel ddisgwyliedig am eu hoedran, heblaw am eu medrau Cymraeg, sy'n amlwg yn is. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol yn datblygu eu medrau Cymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae medrau gwrando disgyblion yn dda. Maent yn gwrando'n ofalus ar oedolion ac ar ei gilydd, ac yn ymateb gan ddefnyddio iaith a thôn llais briodol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd eithriadol o dda yn datblygu eu medrau llafaredd. Mae hyn yn gryfder amlwg yn yr ysgol. Mae disgyblion iau yn datblygu ystod gynyddol soffistigedig o eirfa wrth iddynt fynegi eu syniadau a'u barn yn ystod eu dysgu a'u chwarae. Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae disgyblion yn datblygu i fod yn siaradwyr hyderus a huawdl. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn trafod llythyr oddi wrth Harri VII at Jasper Tudor yn esbonio pa mor llwyddiannus ydoedd ym Mrwydr Bosworth, ac yn defnyddio termau'n seiliedig ar bwnc yn fedrus ac yn aeddfed. Mae medrau llafaredd disgyblion yn datblygu'n gyson. Mae mwyafrif o ddisgyblion hŷn yn defnyddio patrymau Cymraeg cyffredin sydd o fewn eu profiad yn gywir, ac yn rhoi sylw addas i dreigladau.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos brwdfrydedd cymeradwy tuag at ddarllen. Mae disgyblion iau yn gwneud cynnydd cyflym wrth feithrin eu gwybodaeth am seiniau llythrennau ac yn dechrau defnyddio hyn i gefnogi eu hysgrifennu annibynnol yn effeithiol. Mae disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio strategaethau sefydledig yn y dosbarth yn bwrpasol i ddadgodio a darllen geiriau llai cyfarwydd. Maent yn barod i drafod testunau, gan fynegi barnau a dehongliadau craff o'r cymeriadau a'r plot. Erbyn Blwyddyn 6, mae disgyblion yn darllen yn rhugl a gyda mynegiant da. Maent yn dangos dealltwriaeth fanwl o'r hyn y maent yn ei ddarllen ac yn ymateb yn fedrus i gwestiynau am y testun. Maent yn trafod eu hoff lyfrau ac awduron yn huawdl ac yn cefnogi eu dewisiadau â rhesymau dilys.

Mae medrau ysgrifennu disgyblion yn gryf ar draws yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant ysgrifennu cadarnhaol yn llwyddiannus ac yn annog disgyblion i fynegi eu hunain trwy ysgrifennu. Maent yn cyflwyno gwaith yn gyson sy'n ddifyr, yn strwythuredig ac yn wreiddiol. Yn y dosbarth Meithrin, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creu marciau ar draws amrywiaeth o gyd-destunau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn defnyddio creonau i gofnodi canfyddiadau eu harolwg traffig cymunedol. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu i fod yn ysgrifenwyr hyderus, annibynnol ac abl. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynllunio ac yn drafftio'u gwaith yn

effeithiol ac yn gwneud dewisiadau dychmygus o ran geirfa. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu araith berswadiol effeithiol i hyrwyddo Wrecsam fel cyrchfan i ymwelwyr. Gwnânt ddefnydd deallus o gwestiynau rhethregol ac iaith gynyrfiadol wrth iddynt annerch y gynulleidfa a dal ei sylw.

Mae medrau rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda dros gyfnod. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cyfleu eu syniadau mathemategol gan ddefnyddio geirfa briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn ac ym Mlwyddyn 1 yn siarad yn hyderus am 'gynhwysedd' wrth iddynt drafod sut i lenwi eu cynhwysydd yn yr amser cyflymaf. Mae disgyblion Meithrin yn datblygu dealltwriaeth gynnar o batrymau a dilyniannau. Maent yn creu patrymau ôl-troed melyn a gwyrdd bob yn ail wrth iddynt drochi eu hesgidiau glaw mewn paent lliw a cherdded ar hyd adran o bapur wedi'i rolio allan yn yr ardal ddysgu yn yr awyr agored. Maent yn adeiladu ar y wybodaeth hon yn llwyddiannus, ac erbyn Blynyddoedd 3 a 4, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adnabod y rheolau ar gyfer creu dilyniannau rhif wrth iddynt ragweld y rhifau nesaf mewn dilyniant yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn dda ar draws y cwricwlwm ac ar draws ystod o gyd-destunau diddorol. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6, er enghraifft, yn cymhwyso strategaethau lluosog priodol wrth iddynt ddatrys y cod a datrys y drosedd ffuglennol a ddigwyddodd ar y noson bingo yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus. Mae hyn yn gryfder penodol yn yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion iau yn datblygu medrau codio cynnar wrth iddynt arwain tegan rhaglenadwy ar hyd llwybr. Mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn defnyddio'u medrau digidol yn dda i gefnogi eu dysgu, er enghraifft pan fyddant yn creu animeiddiadau diddorol i ddarlunio Harri VIII yn chwilio am Jane Seymour mewn drysfa. Mae'r disgyblion hynaf yn meddu ar fedrau digidol tra datblygedig ac yn defnyddio ehangder o feddalwedd a chymwysiadau yn fedrus ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn creu delweddau tri dimensiwn manwl o gestyll yng Nghymru gan ddefnyddio meddalwedd fodelu briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol ar draws ystod o weithgareddau. Mae disgyblion Blwyddyn 2 a 3, er enghraifft, yn cynllunio ac yn perfformio eu dehongliadau eu hunain o ddawns Hindŵaidd. Maent yn dangos rheolaeth dda o'r corff ac yn symud yn effeithiol ar wahanol lefelau a thempo. Mae disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus ac yn mwynhau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, gan gynnwys gymnasteg, pêl-droed a chwaraeon amrywiol mewn clybiau ar ôl yr ysgol.

Dros gyfnod, mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n dda ar draws amrywiaeth o gyfryngau, ac maent yn cymhwyso'u dealltwriaeth a'u medrau ar draws y cwricwlwm yn bwrpasol. Maent yn caffael cariad cynyddol am greadigrwydd wrth iddynt symud ymlaen trwy'r ysgol. Mae dysgwyr iau yn dangos ymwybyddiaeth dda o gyfran wrth iddynt beintio eu dehongliadau eu hunain o ddraig Cymru. Erbyn Blynyddoedd 3 a 4, mae disgyblion yn siapio a modelu clai yn effeithiol wrth iddynt greu modelau trawiadol o lygad draig.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron pob un o’r disgyblion yn mwynhau’r ysgol ac wrth eu bodd yn cael bod yn rhan o’r ethos gofalgar lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, yn fodlon ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os bydd ganddynt broblem ac yn teimlo cysur y bydd oedolion yn eu helpu pan fydd angen. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o’r angen i gefnogi eu hanghenion cymdeithasol, emosiynol, ac iechyd meddwl. Gwnânt ddefnydd effeithiol o’r cymorth sydd ar gael, pan fydd angen. Er enghraifft, gall disgyblion fynychu sesiwn galw i mewn amser cinio lle gallant gymryd rhan mewn gweithgareddau crefft a sgwrsio â’r Mentor Dysgu hyfforddedig am unrhyw ofidiau a allai fod ganddynt.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymdeimlad cryf o barch atyn nhw eu hunain, eu cyfoedion, aelodau staff ac amgylchedd yr ysgol. Mae ymddygiad ar draws yr ysgol yn eithriadol o dda ac mae disgyblion yn mynd ati i ymgysylltu â’r strategaethau rheoli ymddygiad a gaiff eu gweithredu gan yr ysgol. Maent yn dangos parodrwydd aeddfed i gymryd perchnogaeth o’u gweithredoedd ac yn cyfrannu’n gadarnhaol at gymuned yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymdawelu’n gyflym mewn sesiynau dysgu. Maent yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn ymgysylltu’n bwrpasol â thestunau’r dosbarth. Mae disgyblion yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol gyfan fel addoli ar y cyd, canu, a dathlu eu treftadaeth Gymreig.

Mae agweddau disgyblion tuag at eu dysgu yn gyson gadarnhaol. Maent yn mynd i’r afael â’u profiadau a’u tasgau gydag egni, brwdfrydedd a chwilfrydedd. Er enghraifft, mae disgyblion Meithrin yn ymateb â chwilfrydedd a rhyfeddod wrth iddynt archwilio priodoleddau solidau a hylifau trwy sylwi ar sut mae siocled yn toddi ac yn caledu pan gaiff ei gynhesu a’i oeri.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth gan athrawon, ac yn cymhwyso’r adborth i wneud gwelliannau pwrpasol i’w gwaith.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion hynaf yn mwynhau cyfrannu at eu dysgu trwy awgrymu syniadau am beth hoffent ei ddysgu trwy eu profiadau a’u gweithgareddau. Er enghraifft, yn ystod trafodaethau dosbarth ar ddechrau’r thema ‘Cymru Ryfeddol’, mae disgyblion hŷn yn mynegi diddordeb mewn ymchwilio i saith rhyfeddod Cymru a darganfod cyfanswm nifer y cestyll sydd wedi’u lleoli ledled y wlad.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn wydn ac yn dyfalbarhau’n dda pan fyddant yn wynebu heriau newydd. Maent yn trafod a rhannu syniadau gyda’u partneriaid dysgu yn bwrpasol i ddatrys problemau.

Yn ystod sesiynau darllen mewn grwpiau, mae disgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn cynorthwyo ac annog eu cyfoedion, gan feithrin ethos effeithiol o gydweithio o fewn yr ystafell ddosbarth. Maent yn defnyddio adnoddau’n hyderus i ymchwilio i’w gwaith yn annibynnol, gan gynnwys cyfeirlyfrau a ffynonellau ar-lein.

Trwy werthoedd yr ysgol a’u profiadau dysgu, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gref o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cyfrifol a diogelu’r

amgylchedd. Er enghraifft, ar ôl gweithdy gan Dŵr Cymru yn ymwneud â sut caiff dŵr ei ddefnyddio, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn hyrwyddo ffyrdd o leihau gwastraff dŵr o gwmpas yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn meddu ar ymdeimlad dwys o falchder a chysylltiad â'u hysgol a'u cymuned. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ar draws y gymuned. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan mewn ras hwyl elusennol ac yn datblygu empathi a dealltwriaeth tuag at bobl eraill sydd efallai'n wynebu heriau a chaledi bob dydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o ddiogelwch ar-lein. Er enghraifft, maent yn ymwybodol o beryglon posibl gweithio ar-lein a'r angen i gadw gwybodaeth bersonol fel cyfrineiriau yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall arwyddocâd cynnal diet iach a gwneud ymarfer corff. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn trafodaethau am y risgiau y mae lefelau colesterol uwch yn eu hachosi i iechyd, ac effeithiau niweidiol alcohol ac ysmygu ar y corff.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu galluoedd arwain yn llwyddiannus trwy gymryd rhan mewn pwyllgorau amrywiol. Maent yn falch o gynrychioli eu cyfoedion ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau yn aeddfed ac yn effeithlon. Maent yn myfyrio ar effaith eu gwaith yn bwrpasol ac yn cael ymdeimlad cryf o foddhad â'r gwelliannau y maent wedi'u hysgogi. Er enghraifft, mae aelodau o'r Cyngor Ysgol yn gweithredu fel monitoriaid i fodelu a hyrwyddo moesau da, ac maent wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ar draws yr ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyd-fynd yn bwrpasol â gweledigaeth ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru a gwerthoedd ac ethos cryf yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio ystod o brofiadau dysgu diddorol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau ar draws y meysydd dysgu yn briodol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'u *'cynefin'* i gynllunio profiadau dysgu cyfoethog. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn ymweld â'r ysbyty Pwylaidd ac yn holi aelodau o'r gymuned Bwylaidd am eu profiadau o gyrraedd Llannerch Banna ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

Un o'r cryfderau nodedig yn narpariaeth yr ysgol yw sut mae athrawon yn cynllunio profiadau cyfoethog sy'n helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau digidol yn bwrpasol. Er enghraifft, fel rhan o brosiect ysgol gyfan, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol i greu a golygu ffilm fer effeithiol am eu 'Profiad Madras.' Mae athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion mewn amrywiaeth o gyd-destunau, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym o ganlyniad. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3, 4 a 5 yn dylunio clogynnau glaw diddorol ac yn ysgrifennu adroddiadau manwl i ddisgrifio'u priodoleddau gan ddefnyddio terminoleg wyddonol yn fedrus. Mae'r ysgol yn hyrwyddo drama a chelf yn effeithiol i ysbrydoli disgyblion i ddatblygu eu medrau mynegiannol a llafaredd. Ar ôl ymweliad i wylio perfformiad o 'A Midsummer Night's Dream', mae'r disgyblion hŷn yn cydweithio i berfformio golygfa o'r ddrama â dawn ganmoladwy.

Mae staff yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith a rhannu eu harbenigedd. Er enghraifft, mae disgyblion yn cydweithio ag arbenigwr ariannol i ddysgu am bwysigrwydd cyllidebu gofalus. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu medrau rhifedd, yn datblygu medrau bywyd hanfodol ac yn codi dyheadau disgyblion ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'i hardaloedd dysgu ysgogol a chyffrous i ddarparu ystod o brofiadau ymarferol ar gyfer disgyblion sy'n cefnogi eu lles a'u medrau corfforol a chreadigol. Er enghraifft, mae disgyblion yn y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 yn mwynhau'r amser a dreulir yn eu hardal goetir yn adeiladu cuddfannau, yn creu modelau diddorol o ddeunyddiau naturiol ac yn tostio malws melys. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo cariad disgyblion o'r awyr agored ac yn meithrin ymdeimlad o antur ynddynt.

Ar draws yr ysgol, ceir perthnasoedd gweithio cryf rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn rheoli ymddygiad yn effeithiol. Caiff athrawon eu cynorthwyo'n dda gan dîm o gynorthwywyr addysgu ymroddgar, sy'n darparu rhaglenni cymorth pwrpasol sy'n hyrwyddo lles a dysgu disgyblion yn llwyddiannus. Mae gan yr ysgol ddyheadau uchel ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Mae staff yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn helpu llawer o ddisgyblion i fagu hyder i siarad Cymraeg.

Mae athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu yn llwyddiannus. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn am y cysyniadau a'r medrau y maent yn eu haddysgu. Defnyddiant dechnegau holi'n fedrus i alw dysgu blaenorol disgyblion i gof a chadarnhau eu dealltwriaeth o dasgau yn llwyddiannus. Mae athrawon yn sicrhau bod gweithgareddau'n symud ymlaen ar gyflymdra effeithiol ac yn annog disgyblion i weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol i gwblhau tasgau a datrys problemau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wneud dewisiadau am eu dysgu. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 a 3 yn arbrofi â dewis pa siapiau tri dimensiwn y maent yn dymuno'u dewis i adeiladu eu dehongliad o gastell yng Nghymru. Fodd bynnag, ar adegau, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion, sy'n cyfyngu ar gyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau dysgu'n annibynnol yn llawn ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn deall beth mae angen iddynt ei wneud i lwyddo yn eu tasgau. Maent yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion ac yn ymyrryd yn sensitif ar adegau priodol yn ystod gweithgareddau i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt weithio. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddeall beth maent wedi'i wneud yn dda a beth mae angen iddynt ei wella. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i adborth ac yn gwneud gwelliannau defnyddiol i'w gwaith.

Mae staff yn sicrhau bod trefniadau effeithiol i fonitro ac olrhain cynnydd disgyblion. Maent yn gwerthuso ac yn ystyried y wybodaeth hon yn ofalus i ymateb i anghenion unigol disgyblion ac yn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn briodol. Roedd adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gynnydd eu plentyn ac yn rhoi manylion am y camau nesaf yn eu dysgu yn briodol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos gofalgar a chefnogol yn llwyddiannus. Mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn i gymuned glòs lle mae disgyblion a staff yn gofalu am ei gilydd yn ystyriol. Mae athrawon a chynorthwywyr addysgu yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn brydlon ac yn sensitif i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hon yn nodwedd gref yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd pwrpasol o raglen lles emosiynol yr ysgol, sy'n cynorthwyo unigolion yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cadarn dros gyfnod. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n gydwybodol i sicrhau bod trefniadau pwrpasol er mwyn gallu nodi'n gynnar y disgyblion a fyddai'n elwa ar gael cymorth ychwanegol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu rhaglenni addas i gefnogi anghenion emosiynol a lles disgyblion, yn ogystal â datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae staff, rhieni a disgyblion yn cyfarfod i adolygu cynnydd yn rheolaidd a chynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill, er enghraifft y Gwasanaeth Seicoleg Addysg, i ddarparu cymorth arbenigol i ddisgyblion ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n elwa ar gymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd da o ran eu cyfnod datblygu.

Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion gyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd â rolau arwain. Mae'r rolau hyn yn meithrin medrau cydweithio disgyblion a'u hyder yn llwyddiannus. Trwy'r cyfrifoldebau hyn, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o sut i ddefnyddio'u dylanwad i gynrychioli pobl eraill ac ysgogi newid cadarnhaol. Er enghraifft, mae'r 'Criw Cymraeg' yn dathlu a gwobrwyo defnydd disgyblion o Gymraeg achlysurol yn ystod gwasanaethau wythnosol, ac yn hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a'i diwylliant o fewn yr ysgol.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw sut mae staff yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am ystod o fathau o ffydd a chrefyddau. Mae gweithredoedd addoli ar y cyd yn yr ysgol yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygiad ysbrydol a moesegol disgyblion. Roedd staff yn darparu profiadau unigryw a chyfoethog sy'n hyrwyddo gwerthfawrogiad disgyblion o bwysigrwydd seremonïau a thraddodiadau. Er enghraifft, mae disgyblion Meithrin yn cynllunio a mynychu seremoni briodas ar gyfer 'Betty a Harry y bwgan brain' yn Eglwys Santes Mair Magdalen. Ar draws yr ysgol, mae 'mannau gweddïo' mewn ystafelloedd dosbarth i ddisgyblion gael cyfleoedd gwerthfawr i ystyried a myfyrio. Mae'r profiadau hyn yn cynorthwyo disgyblion i fyfyrio ar eu gwerthoedd eu hunain ac ymddwyn yn barchus tuag at bobl eraill yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu am wyliau, gan gynnwys y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, ac yn ymweld â chymuned Hindŵaidd yng Nghaerlŷr i arsylwi'r paratoadau ar gyfer Diwali. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth disgyblion o amrywiaeth yng Nghymru a'r byd, ac o'r angen i groesawu a dathlu gwahaniaethau.

Mae staff yn hyrwyddo cyfleoedd sy'n datblygu gallu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir ac yn anghywir. Er enghraifft, mae swyddog heddlu lleol yn ymweld â'r ysgol i drafod canlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned gyda'r disgyblion hŷn.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn digwyddiadau a chystadlaethau chwaraeon. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymdeimlad disgyblion o gyflawniad, gwydnwch a moeseg waith. Mae disgyblion hefyd yn mwynhau cyfleoedd i gymryd rhan mewn cynyrchiadau, fel cyngherddau a dramâu, a pherfformio'r rhain o flaen cynulleidfa. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn canu yn Eglwys Santes Mair Magdalen adeg y Nadolig.

Mae staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'u diwylliant Cymreig yn effeithiol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cymryd rhan yn nhraddodiad Cymreig Calennig ac yn perfformio mewn eisteddfodau. Mae disgyblion hŷn yn ymweld â Chastell Caernarfon a chwarel lechi dan y ddaear i atgyfnerthu eu gwaith thematig ynghylch 'Cymru Ryfeddol'. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu â diwylliant a thraddodiadau Cymru, ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn a balchder. Atgyfnerthir hyn gan ymweliadau preswyl blynyddol, er enghraifft canolfan awyr agored, sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau corfforol a chymdeithasol disgyblion.

Mae gan yr ysgol strategaethau effeithiol ar waith ar gyfer hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb rheolaidd y disgyblion. Mae staff yn gweithio'n agos ac yn sensitif gyda theuluoedd ac asiantaethau eraill lle mae presenoldeb yn peri pryder. Ceir diwylliant cadarn o ddiogelu yn yr ysgol, ac mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn cyfrannu at ddiogelwch disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn arweinydd gofalgar ac ymroddgar. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar gefnogi datblygiad cyfannol disgyblion o fewn cymuned ddysgu hapus a bywiog. Mae hi wedi rhannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda disgyblion, staff, rhieni a llywodraethwyr, ac o ganlyniad, ceir ymdeimlad cryf fod yr ysgol yn un teulu mawr cefnogol lle mae llais pawb yn cyfrif, a phawb yn cael cyfle i ffynnu. Mae'r pennaeth yn hyrwyddo diwylliant diogelu cryf yn yr ysgol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus tra byddant yn gweithio ac yn chwarae.

Caiff y pennaeth ei chefnogi gan ddirprwy medrus a thîm o staff cydwybodol sy'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau eu bod yn darparu cyfleoedd dysgu difyr ar gyfer disgyblion. Mae staff yn gwybod yn dda beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac yn cydweithredu'n bwrpasol i sicrhau bod anghenion emosiynol ac addysgol disgyblion yn cael eu diwallu'n briodol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer rheoli perfformiad staff a bod eu targedau'n cael eu cysylltu'n briodol â blaenoriaethau gwella'r ysgol, yn ogystal ag anghenion datblygiadol aelodau staff unigol. Mae'r ysgol yn trefnu ystod ddefnyddiol o gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer staff, sy'n adeiladu'n bwrpasol ar allu'r ysgol i hyrwyddo dysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn gweithio'n agos gydag ysgolion lleol i ddatblygu adnoddau gwerthfawr i gefnogi cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion dros gyfnod. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth ar y cyd staff o sut beth yw cynnydd ar draws meysydd y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod prosesau addas i fonitro darpariaeth a chefnogi cynllunio gwelliant. Maent yn casglu ystod dda o dystiolaeth uniongyrchol i werthuso'r ddarpariaeth, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol

a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r gweithgareddau monitro yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Er enghraifft, nid yw monitro wedi nodi bod staff, ar adegau, yn gor-gyfarwyddo dysgu'r disgyblion a bod hyn yn cyfyngu ar ddatblygiad eu medrau dysgu'n annibynnol. Mae cynlluniau gwella'r ysgol yn canolbwyntio'n dda ar flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys datblygu medrau Cymraeg disgyblion a gweithredu gofynion Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr a staff, yn monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella yn rheolaidd.

Mae'r llywodraethwyr yn eiriolwyr angerddol ac ymroddgar dros yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol ac yn sicrhau bod diwylliant diogelu cryf a threfniadau addas ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ymhlith disgyblion. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i herio'r ysgol ynghylch lles, cynnydd a safonau disgyblion. Mae arweinwyr, gan gynnwys llywodraethwyr, yn rheoli cyllid yn ofalus ac mae gwariant yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae gan arweinwyr gynlluniau manwl ar waith i ddefnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i ddarparu rhaglenni priodol i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion a datblygiad eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaethau llwyddiannus â rhieni a'r gymuned ehangach. Er enghraifft, mae grŵp rhieni Ffrindiau Madras yn trefnu nosweithiau bingo sy'n codi arian hanfodol ac yn gwahodd aelodau o'r gymuned leol i'r ysgol i brofi a chyfrannu tuag at ethos cyfeillgar a chynhwysol yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu diweddariadau amserol i rieni ynghylch cynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae'r adroddiadau interim yn rhannu cyngor gwerthfawr sy'n cefnogi gallu rhieni i helpu eu plant gartref.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  23/05/2024